Erthygl 6 – Pwyllgorau Craffu

6.1 Bydd saith Pwyllgor Craffu gydag aelodaeth fel y nodir isod.

TEITL	AELODAU	CYFRIFOLDEBAU
Y Pwyllgor Craffu – Polisi ac Adnoddau	14 o Aelodau 6 Annibynnol 2 Llafur 6 Plaid Cymru	Strategaeth/polisi corfforaethol; monitro perfformiad corfforaethol; materion trawsbynciol. Cynllunio ariannol ac adnoddau cyllid; asedau ffisegol; technoleg gwybodaeth. Cynnal a chadw adeiladau heblaw tai; datblygu trefniadaeth; adnoddau dynol. Datblygu cynaliadwy.
Y Pwyllgor Craffu - Cyfiawnder Cymdeithasol, Troseddau ac Anhrefn	12 o Aelodau 5 Annibynnol 1 Llafur 5 Plaid Cymru 1 Heb gysylltiad pleidiol Gall y Pwyllgor hefyd gyfethol gweithwyr, swyddogion neu aelodau Awdurdodau sydd â Chyfrifoldeb neu bobl neu gyrff sy'n cydweithredu mewn perthynas â'i swyddogaethau trosedd ac anhrefn, yn amodol ar ddarpariaethau Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009	Cynhwysiad Cymdeithasol; y materion diogelwch cymunedol a nodwyd yn y Strategaethau Diogelwch Cymunedol a Lleihau Trosedd ac Anhrefn Corfforaethol, gan weithio gyda phartneriaid perthnasol yn y gymuned, yn cynnwys yr Heddlu, y Frigâd Dân a'r Bwrdd Iechyd Lleol, swyddogaethau trosedd ac anhrefn (gan gynnwys pŵer i gyflwyno adroddiad neu argymhellion i'r Cyngor Sir a/neu Fwrdd Gweithredol y Cyngor).
Y Pwyllgor Craffu - Tai	12 o Aelodau 5 Annibynnol 2 Llafur 5 Plaid Cymru	Tai yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; Gwasanaethau tai gan gynnwys atgyweirio a chynnal a chadw tai cyngor.
Y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Gofal Cymdeithasol	12 o Aelodau 5 Annibynnol 2 Llafur 5 Plaid Cymru	Gofal cymdeithasol ac iechyd; Gwasanaethau oedolion ac iechyd meddwl; Materion “Wanless” .
Pwyllgor Craffu – Yr Amgylchedd	13 o Aelodau 5 Annibynnol, 2 Llafur, 5 Plaid Cymru 1 Heb gysylltiad pleidiol	Gwasanaethau rheng flaen amlwg megis priffyrdd, glanhau strydoedd a gwasanaethau gwastraff gan gynnwys y strategaeth wastraff, rheoli canol trefi, cynnal a chadw

		tiroedd, cyfleusterau cyhoeddus, cysgodfannau bysiau a chynnal a chadw meysydd parcio. Y cynllun gwastraff rhanbarthol, trafnidiaeth, cynnal a chadw cerbydau, diogelwch ffyrdd, parcio ceir ar y stryd ac oddi ar y stryd a pharcio i breswylwyr, cadwraeth, gwasanaethau ymgynghori a dylunio, rheoli'r morlin, diogelu'r arfordir, tir halogedig a llygredd aer.
Y Pwyllgor Craffu - Adfywio a Hamdden	<u>14 o Aelodau</u> 6 Annibynnol 2 Llafur 6 Plaid Cymru	Adfywio Cynllunio Datblygu Economaidd ac Adfywio Cymunedol Adloniant a Hamdden
Y Pwyllgor Craffu - Addysg a Gwasanaethau Plant	<u>18 o Aelodau</u> 6 Annibynnol 2 Llafur 5 Plaid Cymru 5 Aelod Cyfetholedig gan gynnwys 3 rhiant-lywodraethwr etholedig ac 1 cynrychiolydd yr un o'r Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig	Dysgu gydol oes; gwasanaethau plant, ysgolion, addysg gymunedol, yr iaith Gymraeg (yn y gymuned); arlwyo, glanhau adeiladau

6.2 Cylch Gwaith Cyffredinol ar gyfer pob Pwyllgor Craffu (ac eithrio yn achos y Pwyllgor Craffu Cyfiawnder Cymdeithasol, Troseddau ac Anhrefn wrth arfer pwerau mewn perthynas â throseddau ac anhrefn)

O ran materion sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau thematig a chyfrifoldebau eraill:-

i. Datblygu a chyhoeddi rhaglen gwaith cychwynnol bob blwyddyn gan glustnodi materion ac adroddiadau sydd i'w hystyried yn ystod blwyddyn y Cyngor, gan roi sylw i Raglen Gwaith Cychwynnol y Cyngor

ii. Adolygu a/neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd gan y Bwrdd Gweithredol a/neu'r Cyngor o ran cyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau, a chyflwyno adroddiadau i'r Cyngor a/neu'r Bwrdd Gweithredol mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau.

iii Ymarfer yr hawl i alw-i-mewn y penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol, ond sydd heb eu gweithredu eto, er mwyn eu hailystyried.

iv Monitro perfformiad y Bwrdd Gweithredol/yr Awdurdod wrth gyflawni targedau ac amcanion allweddol drwy dderbyn adroddiadau monitro perfformiad rheolaidd.

v Craffu ar ddatblygu a gweithredu cynlluniau busnes y gwasanaethau gan gynnwys monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu a thargedau penodol.

vi. Monitro cynnydd wrth gynnal adolygiadau Gwerth Gorau a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella gan gynnwys cyflwyno argymhellion o ran dewisiadau /targedau perfformiad gwasanaethau yn y dyfodol i'r Bwrdd Gweithredol/Cyngor a monitro'r cynlluniau gweithredu dilynol.

vii Cynnal adolygiad Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella neu adolygiadau eraill ar gais y Bwrdd Gweithredol mewn ymateb i faterion a amlygwyd gan yr asesiad risg blynyddol.

viii Cymryd rhan yn yr ystyriaeth a roddir i broses yr awdurdod o bennu'r gyllideb.

ix Cymryd rhan ym mhroses yr Awdurdod o ddatblygu ac adolygu polisïau gan gynnwys cynnig newidiadau i'r Bwrdd Gweithredol a/neu'r Cyngor fel y bo'n briodol a rhoi cyngor i'r Bwrdd Gweithredol ar faterion o bwys cyn bod penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud.

x Cynnal ymchwil annibynnol pellach gyda'r nod o gynorthwyo i wella'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau (a hefyd derbyn ceisiadau gan y Bwrdd Gweithredol yn y maes hwn)

xi Cyfeirio materion at y Bwrdd Gweithredol i'w hystyried ymhellach (gan eu cefnogi ag adroddiadau a chynigion sy'n seiliedig ar dystiolaeth)

xii Ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion o ran eu maes gorchwyl penodol; a chwestiynu aelodau'r Bwrdd Gweithredol a/neu bwyllgorau a'r prif swyddogion a phartneriaid am eu barn ar faterion a chynigion sy'n effeithio ar yr ardal.

xiii Cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor yn rhoi cyfrif am weithgareddau'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Cylch Gwaith Penodol lle mae'r Pwyllgor Craffu Cyfiawnder Cymdeithasol, Troseddau ac Anhrefn yn ystyried arfer pwerau mewn perthynas â throseddau ac anhrefn

Adolygu a/neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni eu swyddogaethau trosedd ac anhrefn gan yr awdurdodau sydd â chyfrifoldeb

Cyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor a/neu'r Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau trosedd ac anhrefn gan yr awdurdodau sydd â chyfrifoldeb

Ystyried mewn cyfarfod o'r pwyllgor unrhyw fater trosedd ac anhrefn lleol a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan aelod o'r Cyngor

Penderfynu a fydd yn cyflwyno adroddiad neu argymhellion i'r Cyngor a/neu'r Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â mater trosedd ac anhrefn lleol, gan roi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wnaed gan yr aelod hwnnw ynghylch pam y dylai'r pwyllgor wneud hynny.

Rhoi gwybod i'r aelod dan sylw am ei benderfyniad a'r rhesymau dros ei benderfyniad mewn unrhyw achos lle mae'r pwyllgor yn penderfynu peidio â chyflwyno adroddiad neu argymhellion mewn perthynas â mater trosedd ac anhrefn lleol

Rhoi copi o unrhyw adroddiad neu argymhellion gan y pwyllgor i'r aelod dan sylw (mewn perthynas â mater trosedd ac anhrefn lleol) ac i bobl neu gyrff sydd â chyfrifoldeb ac sy'n cydweithredu, yn ôl yr hyn a dybia'n briodol

Adolygu ymatebion i adroddiadau ac argymhellion gan y pwyllgor, a monitro'r camau a gymerir gan bobl neu gyrff sydd â chyfrifoldeb ac sy'n cydweithredu mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau trosedd ac anhrefn gan yr awdurdodau sydd â chyfrifoldeb.

6.3 Cylch Gwaith Penodol y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau

- Lle bo materion o fewn maes gorchwyl mwy nag un pwyllgor craffu, penderfynu pa un ohonynt fydd yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw fater penodol, a datrys unrhyw faterion sy'n peri anghydfod rhwng y pwyllgorau craffu.
- Derbyn ceisiadau oddi wrth y Bwrdd Gweithredol a/neu'r Cyngor am adroddiadau.
- Rhoi system ar waith, a'i chynnal, sy'n sicrhau bod materion a gaiff eu cyfeirio gan y pwyllgorau craffu at y Bwrdd Gweithredol, naill ai drwy adroddiad neu i'w hailystyried, yn cael eu rheoli'n effeithlon ac nad ydynt yn mynd uwchlaw'r terfynau a nodir yn y Cyfansoddiad hwn.
- Gwneud penderfyniadau ar gais y Bwrdd Gweithredol ynglŷn â'r flaenoriaeth y dylid ei rhoi i'r materion a gaiff eu cyfeirio os digwydd i nifer yr adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol fod yn uwch na'r terfynau yn y Cyfansoddiad hwn, neu os yw swmp y cyfryw adroddiadau yn creu anhawster o ran rheoli'r busnes gweithredol neu'n peryglu gweithrediad effeithlon busnes y Cyngor.
- Cymryd rhan ym mhroses yr awdurdod o ddatblygu ac adolygu polisïau sy'n ymwneud â materion corfforaethol a thrawsbynciol gan gynnwys cynnig newidiadau i'r Bwrdd Gweithredol a/neu'r Cyngor fel y bo'n briodol a rhoi cyngor i'r Bwrdd Gweithredol ar faterion o bwys cyn bod penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud.
- Monitro'r cynnydd o ran y Strategaethau Corfforaethol a Chymunedol.
- Craffu ar Gynllun Gwella yr Awdurdod, a'i gymeradwyo, gan gynnwys targedau perfformiad penodol.
- Craffu ar berfformiad cyffredinol y Cyngor a'i fonitro yn ôl cyfres o dargedau ac amcanion allweddol drwy dderbyn adroddiadau rheolaidd yn monitro'r perfformiad (gan gynnwys y cynnydd yn erbyn y Grantiau Ysgogi Perfformiad)
- Ystyried ymateb y Cyngor i Raglen Cymru ar gyfer Gwella, a chyfrannu ato, gan gynnwys cynnal adolygiadau trawsbynciol a chraffu ar y cynnydd a'r materion a ddaw i'r amlwg yn sgil y Dadansoddiad o'r Awdurdod Cyfan a'r asesiadau risg blynyddol.
- Monitro'r modd y cyflenwir rhaglen effeithlonrwydd y Cyngor.
- Ymarfer yr hawl i alw-i-mewn penderfyniadau sydd heb eu gweithredu eto a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol neu aelod unigol o'r Bwrdd Gweithredol neu gan swyddog yn gweithredu dan bwerau dirprwyedig, er mwyn eu hailystyried.
- Cyfeirio materion at y Bwrdd Gweithredol / pwyllgorau craffu thematig eraill.

6.4 Aelodaeth

Daw aelodau pob Pwyllgor Craffu o blith y Cynghorwyr hynny nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol. Nodir nifer yr aelodau ar bob pwyllgor ym Mharagraff 6.1 o'r Erthygl hon. Bydd y Pwyllgor Craffu sy'n gyfrifol am faterion Addysg yn cynnwys aelodau cyfetholedig sydd â phleidlais, sef cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr etholedig a chynrychiolwyr eglwysig, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Gall y Pwyllgor Craffu Cyfiawnder Cymdeithasol, Troseddau ac Anhrefn hefyd gyfethol aelodau mewn perthynas â materion trosedd ac anhrefn. Gall y Cyngor, ar argymhelliad Pwyllgorau Craffu, benodi aelodau eraill heb bleidlais i wasanaethu ar y pwyllgorau hynny.

6.5 Trafodion Pwyllgorau Craffu

Bydd y pwyllgorau Craffu yn cynnal eu trafodion yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Craffu yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn, gan gynnwys ymgynghori lle bo angen â phwyllgorau, rhanddalwyr neu grwpiau eraill yn y gymuned.

Yn ôl y trefniadau hyn:-

- Gall unrhyw aelod o Bwyllgor Craffu sicrhau bod unrhyw fater sy'n berthnasol i faes gorchwyl eu Pwyllgor yn cael ei roi ar yr agenda a'i drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor hwnnw; (DS mae hyn yn ofyniad statudol.)

- Bydd pob Pwyllgor Craffu yn ddarostyngedig i'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

- Bydd cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu yn agored i'r cyhoedd ac eithrio mewn amgylchiadau lle trafodir gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig;

- Mae hawl gan Bwyllgorau Craffu i fynnu bod aelodau o'r bwrdd gweithredol yn ymddangos ger eu bron ac yn ateb cwestiynau. Nid yw'r pŵer hwn yn gyfyngedig i graffu ar benderfyniadau a wnaed yn unig. Gellir ei ddefnyddio hefyd i holi Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ynghylch pethau megis materion sy'n mynd i godi yn y dyfodol, cyn belled ag y rhoddir rhybudd digonol o hynny.

6.6 Gweithdrefnau Galw-i-mewn

Bydd pŵer gan Bwyllgorau Craffu i adolygu a chraffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerwyd, yng nghyswllt y swyddogaethau a gyflawnir gan y Bwrdd Gweithredol. Mae'r pŵer i adolygu neu graffu ar benderfyniad a wnaed ond sydd eto i'w weithredu yn cynnwys y pŵer i argymell bod y person neu gorff a wnaeth y penderfyniad yn ei ailystyried (boed yn aelod unigol o'r Bwrdd Gweithredol, swyddog y Cyngor neu'r Bwrdd Gweithredol cyfan; neu i ofyn i'r Cyngor llawn adolygu'r penderfyniad.)

Bydd rhai cyfyngiadau yn gymwys i ddefnyddio'r pwerau galw-i-mewn. Dylai Pwyllgor Craffu ystyried cyfeirio penderfyniad lle mae sail wirioneddol a difrifol dros wneud hynny fydd yn cynnwys y canlynol, ar gyngor y Swyddog Monitro:-

i. Cred bod y penderfyniad neu'r cam gweithredu yn groes i'r fframwaith

polisi neu'r Gyllideb, neu'n syrthio y tu allan i swyddogaethau'r Weithrediaeth;

ii. Cred nad oedd y Bwrdd Gweithredol neu Aelod Unigol o'r Bwrdd Gweithredol neu Swyddog wedi dilyn y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer ymgynghori (fel y'u cyflwynir mewn protocolau a fabwysiadwyd gan y Cyngor) cyn dod i benderfyniad;

iii. Cred nad oedd y Bwrdd Gweithredol, Aelod Unigol o'r Bwrdd Gweithredol neu Swyddog wedi dilyn, neu wedi methu â chymryd i ystyriaeth, unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol, gan gynnwys rheoliadau neu gyfarwyddyd statudol ar gamau gweithredu'r Cyngor, neu gyfarwyddyd arall a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

6.7 Gweithredu'r Weithdrefn Galw-i-mewn

Ac eithrio mewn achosion brys, ni fydd unrhyw benderfyniad yn dod i rym hyd nes y bydd 3 diwrnod wedi mynd heibio ers i'r penderfyniad gael ei gyhoeddi. Gall mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor Craffu perthnasol alw'r penderfyniad i mewn unrhyw adeg cyn i'r penderfyniad gael ei weithredu, drwy ofyn bod y Prif Weithredwr yn galw cyfarfod o'u pwyllgor i ystyried y penderfyniad.

Gellir gwneud hyn drwy gael mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor Craffu i anfon ceisiadau e-bost at yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn gofyn am i'r mater gael ei alw-i-mewn. Bydd yr uned wedyn yn ymgynghori â'r Swyddog Monitro sy'n gorfod nodi a yw'r amodau ar gyfer galw-i-mewn wedi eu bodloni.

Bydd y Pwyllgor Craffu yn cyfarfod fel arfer cyn pen deg diwrnod gwaith o'r adeg y galwyd y penderfyniad i mewn. Gallant gyfeirio'r penderfyniad yn ôl at y corff a wnaeth y penderfyniad (gan gynnwys Aelod Unigol o'r Bwrdd Gweithredol) neu i'r Cyngor llawn, yn ôl i ba raddau y mae eu pryderon yn ymwneud â'r amgylchiadau penodol a nodir uchod.

Os nad yw'r Pwyllgor Craffu yn gwrthwynebu'r penderfyniad, daw'r penderfyniad i rym yn ddi-oed. Fel arall, caiff ei gyfeirio at y sawl a wnaeth y penderfyniad yn y lle cyntaf. Cyn belled ag y cydymffurfir â'r gofyniad i roi rhybudd, gall y sawl a wnaeth y penderfyniad yn wreiddiol ddiwygio'r penderfyniad neu, ar ôl ailystyried, weithredu'r penderfyniad heb ei newid. Daw'r penderfyniad i rym yn ddi-oed, ac nid oes hawl ei alw-i-mewn eto. Bydd gweithdrefnau tebyg yn gymwys i benderfyniadau a wnaed gan aelodau unigol o'r Bwrdd Gweithredol a swyddogion sy'n ymarfer pwerau dirprwyedig.

Ni weithredir y weithdrefn galw-i-mewn:

mewn perthynas â materion brys. ("Mater brys" yw mater sy'n golygu bod bygythiad i fywydau neu les rhai neu'r cyfan o drigolion y sir neu unrhyw fater cyfreithiol, masnachol, neu fater arall lle gallai oedi effeithio'n andwyol ar fuddiannau'r Cyngor neu hawliau neu fuddiannau eraill, a'r swyddog monitro fydd â'r gair olaf o ran a yw mater yn "fater brys" neu beidio);

mewn perthynas â materion sydd eisoes wedi'u galw-i-mewn;

os yw'n golygu y byddai oedi anghyfreithlon cyn gallu pennu'r

gyllideb;

6.8 PROFFIL SWYDD CADEIRYDD PWYLLGOR CRAFFU

1 Atebolrwydd

Y Cyngor Llawn
I'r etholwyr

2 Rôl, Pwrpas a Gweithgaredd

2.1 Darparu arweiniad a chyfeiriad

Rheoli'r pwyllgor yn hyderus ac yn effeithiol
Hyrwyddo rôl craffu o fewn y cyngor a'r tu allan, gan gadw mewn cysylltiad yn effeithiol yn fewnol yn y cyngor ac yn allanol gyda phartneriaid y cyngor
Datblygu, mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Gweithredol a Swyddogion, rhaglen gwaith cychwynnol gytbwys ar gyfer y pwyllgor, a ddylai gynnwys datblygu ac adolygu polisïau, craffu ymchwiliol, a monitro perfformiad
Sicrhau bod y rhaglen gwaith cychwynnol yn rhoi sylw i ffactorau perthnasol megis: rhaglenni gwaith y weithrediaeth a'r pwyllgorau eraill, blaenoriaethau a risgiau strategol, a materion cymunedol perthnasol
Arddangos dull gwrthrychol a seiliwyd ar dystiolaeth o ymdrin â chraffu
Gwerthuso effaith a gwerth ychwanegol gweithgaredd craffu a nodi'r meysydd i'w gwella

2.2 Rheoli'r rhaglen waith

Sicrhau bod y rhaglen waith yn cael ei chyflawni
Adrodd ar y cynnydd o ran y rhaglen waith i'r Cyngor, ac i eraill fel sy'n briodol
Cysylltu â swyddogion, aelodau eraill a chynrychiolwyr cymunedol i ddarparu adnoddau ar gyfer y rhaglen waith a'i chyflawni

2.3 Galw'r Weithrediaeth i gyfrif

Gwerthuso dilysrwydd penderfyniadau gweithredol a herio penderfyniadau amhriodol trwy drefniadau galw-i-mewn y Cyngor

2.4 Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol

Pennu agenda sy'n cynnwys amcanion a chanlyniadau clir ar gyfer y cyfarfod
Symud y gwaith sy'n cael ei drafod mewn cyfarfodydd yn ei flaen, gan sicrhau bod amcanion y cyfarfod yn cael eu cyflawni ac y glynir at y côd ymddygiad, y rheolau sefydlog a'r gofynion cyfansoddiadol eraill
Sicrhau bod y gwaith paratoi angenrheidiol yn cael ei wneud ymlaen llaw
Sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn cael cyfle i wneud cyfraniad priodol

2.5 Arweinyddiaeth Gymunedol

Gweithredu fel ffocws ar gyfer cyswllt rhwng y cyngor, y gymuned a chyrff allanol yng nghyd-destun swyddogaeth craffu

Meithrin dealltwriaeth a pherchenogaeth o swyddogaeth craffu o fewn y gymuned
Nodi materion cymunedol perthnasol ar gyfer craffu
Cynnwys yn llawn randdalwyr allanol, defnyddwyr gwasanaeth, tystion arbenigol a phartneriaid mewn gweithgaredd craffu

2.6 Cynnwys a datblygu aelodau'r pwyllgor

Annog perfformiad o safon uchel gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor ei hun a'r grwpiau gorchwyl a gorffen
Asesu perfformiad unigol ac ar y cyd o fewn y pwyllgor a hwyluso datblygiad priodol

3 Gwerthoedd

Bod yn ymroddedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

Bod yn Agored ac yn Dryloyw
Gonestrwydd ac uniondeb
Goddefgarwch a pharch
Cydraddoldeb a thegwch
Gwerthfawrogiad o wahaniaethau diwylliannol
Cynaliadwyedd

6.9 MANYLEB PERSON CADEIRYDD PWYLLGOR CRAFFU

I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl honno, mae angen y canlynol ar Gadeirydd Pwyllgor Craffu effeithiol:

1 Darparu arweiniad a chyfeiriad

Dealltwriaeth o rôl a swyddogaethau'r cyngor
Dealltwriaeth o rôl craffu, cylch gwaith y pwyllgor, rôl y cadeirydd, ac agweddau eraill ar y trefniadau democrataidd
Dealltwriaeth o swyddogaethau cynnal craffu
Dealltwriaeth o flaenoriaethau a risgiau'r cyngor
Y gallu i ddatblygu rhaglenni gwaith
Dealltwriaeth o faterion cymunedol
Gwrthrychedd
Sgiliau cyd-drafod a meithrin consensws
Y gallu i feithrin perthynas adeiladol fel 'ffrind beirniadol' i'r Weithrediaeth

2 Rheoli'r rhaglen waith

Y gallu i reoli prosiectau ac adnoddau
Y gallu i reoli pobl
Y gallu i flaenoriaethu
Y gallu i adrodd ar gynnydd i wahanol grwpiau mewn gwahanol arddulliau

3 Galw'r Weithrediaeth i gyfrif

Dealltwriaeth o drefniadau'r Cyngor ar gyfer galw-i-mewn

4 Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol

Dealltwriaeth o brotocol cyfarfodydd, y côd ymddygiad, y rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill, a'u cymhwysiad
Y gallu i gadeirio cyfarfodydd yn effeithiol, gan reoli'r agenda a symud busnes yn ei flaen
Y gallu i hwyluso trafodaethau effeithiol
Y gallu i wrando a holi'n effeithiol

5 Arweinyddiaeth Gymunedol

Dealltwriaeth o rôl arweinyddiaeth gymunedol
Gwybodaeth am faterion a disgwyliadau lleol
Y gallu i weithio'n effeithiol gyda holl aelodau'r gymuned a meithrin dealltwriaeth o graffu a pherchnogaeth arno
Gwybodaeth am yr unigolion a'r sefydliadau yn y gymuned, yn enwedig y rhai sy'n cael eu heithrio'n draddodiadol

6 Cynnwys a datblygu aelodau'r pwyllgor

Dealltwriaeth o rôl a sgiliau'r pwyllgor craffu a'r unigolion sy'n rhan ohono
Y gallu i gynorthwyo'r aelodau a'r pwyllgor i asesu eu perfformiad
Y gallu i nodi unrhyw anghenion hyfforddi a datblygu a chaffael dysgu a datblygu priodol, gan ymgynghori â swyddogion

6.10 PROFFIL SWYDD AELOD O BWYLLGOR CRAFFU

1 Atebolrwydd

Cadeirydd y Pwyllgor Craffu priodol
Y Cyngor Llawn
I'r etholwyr

2 Rôl, Pwrpas a Gweithgaredd

Chwarae rhan lawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Craffu, cynorthwyo i gyflawni ei raglen waith a gwaith unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig

2.1 Adolygu a datblygu polisi

Cynorthwyo i greu, datblygu, gwella a mireinio polisïau'r cyngor
Herio polisïau ar sail tystiolaeth gadarn, er enghraifft yn erbyn deddfwriaeth neu flaenoriaeth wleidyddol leol
Asesu effaith y polisi presennol

2.2 Monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau

Monitro perfformiad darparwyr mewnol ac allanol yn erbyn safonau a thargedau

Cyfrannu at nodi a lleddfu risgiau
Ymchwilio i achosion perfformiad gwael ac ymdrin â hwy

2.3 Hyrwyddo gwaith craffu

Hyrwyddo rôl craffu y tu mewn a'r tu allan i'r cyngor, gan ddatblygu cydberthnasau mewnol ac allanol effeithiol
Arddangos dull gwrthrychol a seiliwyd ar dystiolaeth o ymdrin â chraffu
Ychwanegu gwerth at y penderfyniadau a wneir a'r gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod trwy graffu effeithiol

2.4 Arweinyddiaeth Gymunedol

Defnyddio craffu yn fodd i ymdrin â materion cymunedol a chynnwys y cyhoedd
Annog rhanddalwyr i fod yn rhan o waith yr awdurdod
Datblygu datrysiadau polisi sy'n ymarferol ac yn dderbyniol yn lleol
Meithrin deialog ynghylch blaenoriaethau, amcanion a pherfformiad, ymhlith cymunedau a rhanddalwyr

2.5 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd

Paratoi'n ddigonol ac yn briodol ar gyfer cyfarfodydd trwy waith ymchwil a chyfarwyddyd
Cyfranogi mewn modd rhagweithiol, gwybodus ac effeithiol, gan roi sylw i'r Côd Ymddygiad, y Rheolau Sefydlog a'r gofynion cyfansoddiadol eraill
Gofyn am roi unrhyw fater sy'n berthnasol i faes gorchwyl eu pwyllgor ar yr agenda a'i drafod.

2.6 Galw'r Weithrediaeth i gyfrif

Gwerthuso dilysrwydd penderfyniadau gweithredol a herio penderfyniadau amhriodol trwy drefniadau galw-i-mewn y Cyngor

3 Gwerthoedd

Bod yn ymroddedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

Bod yn Agored ac yn Dryloyw
Gonestrwydd ac uniondeb
Goddefgarwch a pharch
Cydraddoldeb a thegwch
Gwerthfawrogiad o wahaniaethau diwylliannol
Cynaliadwyedd

6.11 MANYLEB PERSON AELOD O BWYLLGOR CRAFFU

I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl honno, mae angen y canlynol ar aelod craffu effeithiol:

1 Chwarae rhan lawn yng ngweithgareddau'r swyddogaeth graffu

Dealltwriaeth lawn o faes gorchwyl a rôl craffu, a chylch gwaith eu pwyllgor eu hunain ac eraill
Dealltwriaeth o swyddogaethau cynnal craffu
Gweithio'n unol â chyfarwyddyd y cadeirydd

2 Adolygu a datblygu polisi

Gwybodaeth am bolisïau presennol a'r gallu i'w gwerthuso
Dealltwriaeth o arfer gorau
Dealltwriaeth o'r cyd-destun deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol a lleol

3 Monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau

Dealltwriaeth o Raglen Cymru ar gyfer Gwella a'r trefniadau asesu risg cysylltiedig
Dealltwriaeth o egwyddorion ac arfer rheoli perfformiad
Dealltwriaeth o drefniadau rheoli perfformiad y cyngor
Y gallu i ddadansoddi data a herio perfformiad

4 Hyrwyddo gwaith craffu

Y gallu i gyd-drafod a meithrin consensws
Y gallu i weithredu'n wrthrychol ac ar sail tystiolaeth

5 Arweinyddiaeth Gymunedol

Dealltwriaeth o rôl arweinyddiaeth gymunedol
Gwybodaeth am faterion a disgwyliadau lleol
Y gallu i weithio'n effeithiol gyda holl aelodau'r gymuned a meithrin dealltwriaeth o graffu a pherchnogaeth arno
Gwybodaeth am yr unigolion a'r sefydliadau yn y gymuned, yn enwedig y rhai sy'n cael eu heithrio'n draddodiadol

6 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd

Y gallu i ddehongli gwybodaeth a data o amrywiaeth o ffynonellau
Dealltwriaeth o brotocol cyfarfodydd, y côd ymddygiad, y rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill, a'u cymhwysiad
Y gallu i gymryd rhan mewn cyfarfodydd, yn cynnwys gwrando, holi a siarad yn effeithiol

7 Galw'r Weithrediaeth i gyfrif

Dealltwriaeth o drefniadau'r Cyngor ar gyfer galw-i-mewn